Home Office

# Dyletswydd Trais Difrifol: Canllawiau Statudol Drafft

# Ymgynghoriad Llywodraeth

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 9 Mehefin 2022

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 21 Gorffennaf 2022

# Am yr ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **I:** | 1.Awdurdodau penodedig a ddiffinnir yn adran 11, ac Atodlen 1, o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022: Prif Swyddogion yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, Grwpiau Comisiynu Clinigol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau lleol, timau troseddu ieuenctid a gwasanaethau prawf,<br>2. Awdurdodau addysg, carchardai a ddalfa ieuenctid fel y diffinnir yn adran 12, ac Atodlen 2, o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022.<br>3. Cyrff plismona lleol.<br>4. Gweinidogion Cymru<br>5. Sector gwirfoddol a chymunedol<br>6. Y cyhoedd |
| **Hyd:** | O 9 Mehefin i 21 Gorffennaf 2022 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am yr ymgynghoriad mewn fformat arall) i:** | Ymholiadau am Ymgynghoriad Dyletswydd Trais Difrifol<br>Uned Trais Difrifol, Y Swyddfa Gartref<br>5ed Llawr, Adeilad Fry<br>2 Stryd Marsham<br>Llundain SW1P 4DF<br>E-bost: svdutyconsultation@homeoffice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Anfonwch eich ymateb erbyn 21 Gorffennaf at:<br>E-bost: svdutyconsultation@homeoffice.gov.uk<br><br>Fel arall, gallwch anfon eich ymateb at:<br>Ymateb Ymgynghoriad ar Ddyletswydd Trais Difrifol<br>Uned Trais Difrifol, Y Swyddfa Gartref<br>5ed Llawr, Adeilad Fry<br>2 Stryd Marsham<br>Llundain SW1P 4DF |
| **Papur ymateb:** | Bydd ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi gan y Swyddfa Gartref ar Gov.uk. |

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ministerial Foreword | 4 |
| Serious Violence Duty Background | 5 |
| Proposals for implementation of the Serious Violence Duty | 6 |
| Consultation Questions | 8 |
| About you | 10 |
| Contact details and how to respond | 11 |
| Consultation principles | 13 |
| **Annex A – Draft Statutory Guidance on the Serious Violence Duty** | **14** |
| **Annex B – Impact Assessment** | **15** |

# Rhagair gan y Gweinidogion



Mae Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 yn gwneud darpariaeth hanfodol trwy'r Ddyletswydd Trais Difrifol i sicrhau bod yr awdurdodau a'r sefydliadau iawn yn cydweithio, yn rhannu data a gwybodaeth, ac yn rhoi cynlluniau ar waith i atal a lleihau trais difrifol.Rydym wedi ymrwymo i leihau trais difrifol a rhoi diwedd ar y trychinebau sy'n achosi gofid i'n cymunedau. Mae'n bwysig iawn ein bod yn gweithio gyda'n gilydd, ar draws y sectorau llywodraeth, statudol, preifat, a gwirfoddol i gyflawni'r newid hollbwysig hwn.

Mae mynd i'r afael â thrais difrifol yn brif flaenoriaeth i'r Swyddfa Gartref.Yn 2018, cyhoeddodd y Llywodraeth ei Strategaeth Trais Difrifol sy'n nodi'n glir nod y Llywodraeth i wneud popeth o fewn ei gallu i atal trais difrifol. Mae'r Llywodraeth wedi sicrhau bod £130m ar gael yn y flwyddyn ariannol yma (22/23) i fynd i'r afael â thrais difrifol, gan gynnwys llofruddiaeth a throseddau cyllyll. Mae hyn yn cynnwys £64m ar gyfer Unedau Lleihau Trais (VRUs) sy'n dod â phartneriaid lleol at ei gilydd i fynd i'r afael â ffactorau sy'n achosi trais yn eu hardal. Mae VRUs yn darparu amrywiaeth o raglenni ymyrraeth ac atal cynnar er mwyn dargyfeirio pobl oddi wrth cymryd rhan mewn troseddu.Mae'r rhaglenni wedi cyrraedd dros 260,000 o bobl ifanc sy'n agored i niwed yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig.

Yn yr ymgynghoriad hwn, rwy'n croesawu eich barn am y Canllawiau Statudol drafft diwygiedig ar y Ddyletswydd.

Rwy'n gobeithio'n fawr eich bod yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Bydd eich barn yn helpu i benderfynu ar gynnwys y canllawiau statudol terfynol a chyfeiriad y gefnogaeth i'w gweithredu.

Kit Malthouse

Gweinidog Gwladol dros Droseddu, Plismona a'r Gwasanaeth Prawf

# Cefndir am Ddyletswydd Trais Difrifol

Mewn ymateb i Ymgynghoriad gan y Llywodraeth yn 2019 ar ddyletswydd gyfreithiol newydd i gefnogi dull amlasiantaethol o atal a mynd i'r afael â thrais difrifol, roedd consenswს cyffredinol ar gyfer dull deddfwriaethol o ymdrin â Dyletswydd. O ganlyniad, deddfwyd Dyletswydd Trais Difrifol ('y Ddyletswydd') fel rhan o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu, a Llysoedd 2022 ('Deddf PCSC') ac mae'n rhan allweddol o ymrwymiad y Llywodraeth i leihau ac atal trais difrifol.

Mae'r Ddyletswydd yn cynnwys y gofynion a nodir ym Mhennod 1 o Ran 2 o Ddeddf PCSC 2022; lle mae angen i awdurdodau penodedig, yr heddlu, awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub, timau troseddu ieuenctid, Grwpiau Comisiynu Clinigol (CCGs) [1]yn Lloegr,Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru a gwasanaethau prawf, gydweithio i lunio dadansoddiad ar sail tystiolaeth o drais difrifol mewn ardal leol ac yna llunio a gweithredu strategaeth sy'n rhoi manylion ar sut y byddant yn ymateb i'r materion hynny.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn y canllawiau statudol drafft ar y Ddyletswydd Trais Difrifol a fydd yn cael ei chyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 19 Deddf PCSC 2022. Nod y canllawiau yw cefnogi awdurdodau penodedig, cyrff plismona lleol, awdurdodau addysg, carchardai a ddalfa ieuenctid, unrhyw bersonau a nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn rheoliadau o dan adran 10 o Ddeddf PCSC 2022 wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Ddyletswydd fel y nodir ym Mhennod 1 o Ran 2 o'r Ddeddf.

Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at y rhai sydd ag arbenigedd wrth weithio gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o gymryd rhan mewn troseddu a/neu ail-droseddu neu erledigaeth, y rhai sy'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith ac, yn fwy cyffredinol, y cymunedau sy'n cael eu heffeithio gan drais difrifol gan gynnwys y sector gwirfoddol a chymunedol. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol perthnasol, megis y rhai sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, addysg, gorfodi'r gyfraith, llywodraeth leol, diogelwch cymunedol, gwasanaethau ieuenctid, rheoli troseddwyr, gwasanaethau i ddioddefwyr, iechyd cyhoeddus a gofal iechyd.

Yrardal ddaearyddol ar gyfer yr ymgynghoriad yw Cymru a Lloegr.

Bydd yr ymgynghoriad hwn hefyd ar gael mewn fersiwn Gymraeg yn fuan. Cyhoeddwyd Asesiad Effaith ar gyfer y Ddyletswydd Trais Difrifol yma. a chyhoeddwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoeddyma.

[1]Bydd CCGs yn cael eu disodli gan Fyrddau Gofal Integredig (ICB) o 1 Gorffennaf 2022 fel rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022

# Cynigion ar gyfer gweithredu'r Ddyletswydd Trais Difrifol

Rydym yn anelu at gyhoeddi'r canllawiau statudol terfynol cyn i'r Ddyletswydd Trais Difrifol ddod i rym ar ddechrau 2023 er mwyn i bartneriaid fod yn barod i'w gweithredu. Cyn i'r uchod ddigwydd, bydd deddfwriaeth eilaidd yn cael ei chyflwyno i wneud darpariaeth bellach ar gyfer neu mewn cysylltiad â chyhoeddi a lledaenu strategaethau a rhoi swyddogaethau i gyrff plismona lleol.  Mae'r polisi amlinellol ar gyfer y ddeddfwriaeth eilaidd wedi'i gynnwys yn y canllawiau statudol drafft ym Mhennod 2 a 3.

Cyhoeddwyd drafft o'r canllawiau statudol ar 13 Mai 2021. Dyma oedd llywio'r trafodaethau yn ystod taith y Bil.Ers y cyhoediad, rydym wedi derbyn sylwadau gan amrywiaeth o randdeiliaid yn ogystal ag mewn dadleuon yn y ddau Dŷ Seneddol.  Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu'r canllawiau ymhellach mewn perthynas â diogelu ac ychwanegu cynnwys newydd ar dai a digartrefedd.  Erbyn hyn mae'r canllawiau drafft yn cynnwys canllawiau i adlewyrchu gosod y ddyletswydd yng Nghymru.

Mae'r canllawiau drafft diwygiedig hefyd yn ystyried y gwelliannau canlynol a wnaed yn ystod taith Seneddol Deddf PCSC:

- gwneud yn glir bod y diffiniad o drais at ddiben y Ddyletswydd yn cynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- heb gynnwys gwybodaeth am gleifion (fel y diffinnir yn adran 10 o Ddeddf PCSC 2022) o ystyried y darpariaethau rhannu data a ddarperir mewn perthynas â'r Ddyletswydd. Yn ogystal, ni all awdurdodau iechyd na gofal cymdeithasol (fel y diffinnir yn adran 10) rannu gwybodaeth bersonol (fel y diffinnir yn adran 10) o dan y darpariaethau rhannu data mewn perthynas â'r Ddyletswydd.
- cyfyngu ar geisiadau data gan gyrff plismona lleol (PCCs, a'r Swyddfa Plismona a Throsedd y Maer yn Llundain a Chyngor Cyffredin Dinas Llundain fel awdurdod heddlu) i wybodaeth sydd eisoes gan awdurdod sydd wedi derbyn cais.
- bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gosod copi o'r canllawiau statudol ar gyfer y Ddyletswydd Trais Difrifol yn y Senedd.
- egluro o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, y mae'n rhaid i awdurdodau penodedig gyhoeddi strategaeth ac y bydd rheoliadau'n rhoi manylion pellach ynghylch cyhoeddi neu ledaenu strategaeth.

Ar ôl i'r Ddyletswydd Trais Difrifol a'r ddeddfwriaeth eilaidd gysylltiedig ddod i rym, bydd gofyn i bartneriaethau lleol weithio tuag at gyhoeddi a lledaenu eu strategaethau.

Rydym yn cynnig y dylai partneriaethau lleol gyhoeddi eu strategaeth gyntaf o fewn 12 mis i gychwyn y Ddyletswydd. Bydd gofyn i awdurdodau penodedig gyhoeddi eu strategaeth trais difrifol gyntaf ac unrhyw adolygiadau dilynol ar wefan sy'n agored i bawb i'w harchwilio. Rydym hefyd yn bwriadu y bydd awdurdodau penodedig yn lledaenu cynnydd ar y strategaeth drwy eu hasiantaeth unigol a phrosesau adrodd blynyddol partneriaeth yn ogystal â chanlyniad unrhyw adolygiadau dilynol.

Mae fersiwn diwygiedig o'r canllawiau ar gael ar dudalen we ymgynghoriad Dyletswydd Trais Difrifol.

Rydym yn gofyn am adborth ar y canllawiau statudol yn ogystal ag astudiaethau achos ychwanegol i gefnogi dysgu pellach.Gallwch naill ai gwblhau'r arolwg ar-lein neu ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar y dudalen nesaf i gofnodi eich ymatebion.

# Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**C1. A yw'r canllawiau statudol drafft yn gwella eich dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Dyletswydd Trais Difrifol?**

Ydy, Nac ydy, Unrhyw sylwadau

**C2. A oes unrhyw agweddau penodol ar y Ddyletswydd Trais Difrifol sy'n parhau i fod yn aneglur (neu sydd ar goll) ar ôl darllen y Canllawiau Statudol drafft? Os oes, allwch chi roi manylion os gwelwch yn dda?**

Oes, Nac oes, Unrhyw sylwadau

**C3. Rydym yn awyddus i gynnwys astudiaethau achos wedi'u diweddaru i gefnogi'r canllawiau statudol ac i gefnogi dysgu parhaus ar drais difrifol. Os ydych yn gallu darparu astudiaeth achos, rhowch fanylion byr isod, gan gynnwys eich manylion cyswllt.**

C4. **I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r awgrymiadau canlynol am gefnogaeth i ardaloedd lleol ar y Ddyletswydd?**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Seminarau cenedlaethol | | | | | |
| Cymorth cyfoedion gan arbenigwyr gweithredol | | | | | |
| Hwyluswyr Cenedlaethol | | | | | |
| Cefnogaeth ymgynghori lleol | | | | | |
| Arall (nodwch os gwelwch yn dda) | | | | | |

**Rhowch fanylion i gefnogi eich ymateb**

C5.**I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r awgrymiadau canlynol am ble mae angen cefnogaeth i ardaloedd lleol ar y Ddyletswydd?**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhannu data a gwybodaeth | | | | | |
| Asesiadau Strategol o Anghenion | | | | | |
| Gwaith aml-asiantaeth | | | | | |
| Diffinio Trais Difrifol | | | | | |
| Arall (nodwch os gwelwch yn dda) | | | | | |

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau dilynol a gyflwynir yn y papur ymgynghori hwn.

Diolch yn fawr am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

# Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi'ch hun

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd**neu'r capasiti yr ydych chi'n ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn ynddo (er enghraifft, aelod o'r cyhoedd) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw'r cwmni/sefydliad**(os yw'n berthnasol) | |
| **Cyfeiriad**<br><br>**Cod post** | |
| Os hoffech i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐<br>(ticiwch y blwch) |
| Cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r cyfeiriad uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych chi'n gynrychiolydd grŵp**, rhowch enw'r grŵp wrthym a rhowch grynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych chi'n eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt a sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 21 Gorffennaf 2022 i:

E-bost: svdutyconsultation@homeoffice.gov.uk

Fel arall, gallwch anfon eich ymateb at:
Ymateb Ymgynghoriad ar Ddyletswydd Trais Difrifol
Uned Trais Difrifol, Y Swyddfa Gartref
5ed Llawr, Adeilad Fry
2 Stryd Marsham
Llundain SW1P 4DF

### Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gŵynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Swyddfa Gartref yn y cyfeiriad uchod.

### Copïau ychwanegol

Mae modd cael copïau papur ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn drwy ysgrifennu at y cyfeiriad hwn ac mae'r copïau hefyd ar gael ar-lein.

Gellir gofyn am fersiynau fformat amgen o'r cyhoediad hwn gan: svdutyconsultation@homeoffice.gov.uk

### Cyhoeddi ymateb

Bydd papur sy'n crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar Gov.uk. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yma.

### Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

### Cyfrinachedd

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (sydd bennaf yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA), y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych chi am i'r wybodaeth yr ydych chi'n ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol, o dan y FOIA, bod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n delio, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.  O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro i ni pam eich bod yn ystyried bod y wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os derbyniwn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y gellir cynnal cyfrinachedd ym mhob achos.  Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried yn rhwymol ar y Swyddfa Gartref.

Bydd y Swyddfa Gartref yn prosesu eich data personol yn unol â'r Deddf Diogelu Data ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill fabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn cael eu nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance

# Atodiad A – Canllawiau Statudol Drafft am y Ddyletswydd Trais Difrifol

*(Copi ar gael ar dudalen ymgynghori Dyletswydd Trais Difrifol)*

# Atodiad B – Asesiad Effaith

Cyhoeddwyd Asesiad Effaith ar Gyfer y Ddyletswydd Trais Difrifol yma.

Cyhoeddwyd Asesiad Effaith Cydraddoldebau ar gyfer Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd yma.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2022

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn:
svdutyconsultation@homeoffice.gov.uk